

Awdurdod S4C
Bwletin – Tachwedd 1999

Dyma'r diweddaraf o fwletinau Awdurdod S4C ynglyn â'i drafodaethau a'i benderfyniadau. Mae'n trafod cyfarfodydd yr Awdurdod ym Merthyr ddiwedd Hydref ac yn edrych ymlaen at y cyfarfodydd sydd ar ddod yn Llandysul.

CYFARFOD CYHOEDDUS

Mae gan yr Awdurdod raglen barhaol o gyfarfodydd agored i'r cyhoedd. Mae'r cyfarfodydd yma yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd gyflwyno eu barn a'u cwestiynau i'r Cadeirydd, Elan Closs Stephens, y Prif Weithredwr, Huw Jones ac i'r Pennaeth Rhaglenni, Huw Eirug. Mae aelodau eraill o'r Awdurdod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth ac i siarad yn anffurfiol gyda'r cyhoedd cyn ac ar ôl y cyfarfodydd.

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf yng Nghanolfan Ddinesig Merthyr Tudful nos Iau 28^{ain} Hydref. Roedd dros 60 o aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. Ymhlith y rheini roedd Mr Ted Rowlands AS dros Merthyr Tudful, ynghyd â nifer o aelodau o Gyngor Bwrdeistref Merthyr. Cafwyd trafodaeth eang a bywiog.

Ymhlith y prif faterion a drafodwyd oedd:

- **Rhaglenni lleol a chymunedol.**

Dymunai rhai aelodau o'r cyhoedd weld nifer sylweddol fwy o raglenni a leolwyd yn lleol ac yn y gymuned, yn enwedig ar yr oriau ychwanegol o raglennu digidol sydd ar gael i S4C. Fe dynnont sylw hefyd at y safon uchel o gynrychiadau y mae'n bosibl i'w cyflawni gyda'r offer fideo diweddaraf y gall grwpiau cymunedol eu fforddio.

Dywedodd Elan Closs Stephens fod yr Awdurdod yn ymwybodol o bwysigrwydd rhaglenni â sylfaen lleol. Yn ei barn hi roedd yn bwysig fod gwahanol gymunedau yn gwybod mwy am ei gilydd ac yn annerch ei gilydd trwy gyfrwng darlledu. Er bod patrymau gwyllo wedi newid dros y blynyddoedd, mae'n parhau i fod yn wir fod rhaglenni â blas lleol neu ranbarthol cryf yn dueddol o ddenu y mwyafrif o'u gwylwyr o'r ardaloedd hynny sydd yn cael eu trafod yn y rhaglenni.

Dywedodd Huw Jones fod anghenion y gwylwyr o'r pwysigrwydd mwyaf a bod rhaid cymryd gofal parthed safon y rhaglenni. Ychwanegodd, fodd bynnag, fod S4C bob amser yn croesawu syniadau newydd ar gyfer rhaglenni ac awgrymodd y dylai cymunedau yrru esiamplau o raglenni cymunedol at S4C fel bo modd ystyried eu gwerth.

- **Beth fydd yn digwydd pan fydd teledu analog yn cael ei ddiffodd?**

Mynegwyd pryder ynglyn â'r goblygiadau i'r gwylwyr pan fydd teledu analog yn cael ei ddiffodd. Roedd pobl yn dymuno gwybod a fyddai angen prynu offer newydd a thanysgrifiadau i sianeli masnachol.

Eglurodd Huw Jones fod y dyddiad ar gyfer diffodd teledu analog i'w benderfynu gan Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU). Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Mr Chris Smith AS, yn ddiweddar bras darged ar gyfer diffodd teledu analog rhywle rhwng 2006 a 2010. Ond gwnaeth yn glir y byddai hyn ond yn digwydd unwaith y byddai teledu digidol o fewn cyrraedd mwyafrif helaeth y boblogaeth. Dywedodd hefyd y byddai'r Llywodraeth yn arolygu'r amserlen yn barhaus, ac roedd yn debygol y byddai'n rhaid iddo benderfynu ar rywbyrd a oedd angen cymorth arbennig ar rai grwpiau i droi'n ddigidol. Yn gyffredinol, roedd er lles hir dymor y Llywodraeth, darlledwyr a'r cynhyrchwyr i ddileu unrhyw rwystrau yn nerbyniad teledu digidol. Roedd y gostyngiad ym mhris y bocsys ar ben y teledu a'r prisiau gostyngol o offer eraill yn arwyddion fod y farchnad yn gweithio er lles y defnyddwyr yn barod, er bod tipyn o ffordd i fynd eto.

- **Cydweithrediad rhwng BBC Cymru a S4C**

Anogwyd S4C gan un aelod o'r gynulleidfa i sicrhau cydweithrediad ehangach gyda BBC yn y dyfodol er lles trethdalwyr, talwyr trwydded a'r gwylwyr. Fe dynnodd sylw yn arbennig at bwysigrwydd cydweithrediad er mwyn sicrhau hawliau rhaglenni, er enghraifft rygbi Cymreig.

Cytunodd Huw Jones y dylid ceisio cydweithrediad ble bynnag fo'n bosibl gyda'r BBC a chydag eraill. Eglurodd fod yna lawer mwy o feysydd lle'r oedd cydweithrediad rhwng y BBC a S4C nag ydoedd gyda chystadleuaeth neu anghydfod. Roedd hyn yn cynnwys y cynrychiadau animeiddio ar y cyd sydd yn adnabyddus yn rhyngwladol, y darllediadau byw o'r Cynulliad Cenedlaethol a sefydlu'r rhwydwaith Coleg Digidol trwy Gymru. Fodd bynnag, mae cystadlu am wylwyr yn rhan o fywyd beunyddiol darlledwyr a gall fod yn bwysig wrth gynnig dewis a gwasanaeth safonol i wylwyr. Mae'r cytundeb a sicrhawyd gan S4C ar gyfer darlledu rygbi Cymreig yn golygu fod yna nawr lawer mwy o gêmâu a llawer mwy o oriau o sylw i rygbi ar gael i'r cyhoedd nag o'r blaen. Cytunodd aelodau eraill o'r cyhoedd fod yna welliant sylweddol wedi bod.

- **Cydbwysedd rhwng darllediadau a chyfleoedd Cymraeg eu cyfrwng a Saesneg eu cyfrwng**

Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â chyfleoedd darlledu yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru, esboniodd Elan Closs Stephens tra bo gwariant uniongyrchol BBC Cymru ar raglenni Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng yn gyfwerth ar y cyfan, bod gwariant cyfan BBC ar ddarlledu yng Nghymru (y rhan fwyaf ohono yn mynd at raglenni BBC a roed ar y rhwydwaith cenedlaethol) yn sylweddol fwy na gwariant y BBC ar raglenni Cymraeg eu hiaith. Yn fwy cyffredinol, dim ond S4C sydd yn darlledu rhaglenni Cymraeg, lle bo lliaws o ddarlledwyr cyhoeddus a masnachol yn darlledu yn Saesneg, gyda'r disgwyliad am fwy o lawer i ddod.

Eglurodd Huw Jones fod S4C yn annog cyfraniadau o bob cefndir ieithyddol. Cyfeiriodd at lwyddiant cynlluniau ysgoloriaethau S4C mewn datblygu talent ifanc. Roedd y rhain ar gael i bobl beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol neu ethnig ac roeddynt wedi arwain at lansio nifer o yrfaeodd llwyddiannus. Cynhwysid pobl a oedd wedi dysgu Cymraeg neu a datblygodd eu sgiliau siarad Cymraeg yn sylweddol er mwyn cymryd rhan mewn cynrychiadau darlledu S4C. Eglurodd hefyd fod S4C yn recriwtio ei staff ar sail polisi llym o gyfleoedd cyfartal gan ddewis pobl ar sail sgiliau i wneud swyddi penodol. Yn amlwg roedd nifer o swyddi, er enghraifft comisiynu rhaglenni Cymraeg eu hiaith, angen gwybodaeth rugl o'r Gymraeg, tra nad oedd eraill, fel peirianwaith ei hangen. Mae'r holl staff yn derbyn cyfleoedd llawn i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol a'u sgiliau eraill.

• **Traciau Sain Dwyieithog**

Mynegwyd gwahanol farnau ynglyn a ddylai S4C gynnig trac sain Saesneg yn ogystal ag un Cymraeg ar gyfer rhaglenni digidol megis rygbi. Anogodd rhai fod hyn yn ffordd bwysig o ymestyn gwasanaethau S4C i'r cyhoedd Saesneg eu hiaith yng Nghymru. Roedd angen cymorth ar eraill i ddeall y sylwebaeth Gymraeg yn well, er enghraifft trwy ddarpariaeth cyfieithiadau o'r prif dermau technegol ar wasanaeth teledestun 889 i ddysgwyr Cymraeg.

Eglurodd Huw Jones fod hyn yn achos gwirioneddol anodd a thringar i S4C y byddai'r Awdurdod yn siwr o'i drafod yn ofalus. Roedd gosodiad diofyn setiau teledu yn Saesneg, felly ar hyn o bryd yr unig ffordd o ddarparu traciau sain dwyieithog fyddai trwy orfodi'r rhai oedd am wyllo gyda thrac Cymraeg i newid gosodiad sylfaenol eu setiau teledu. Ystyriai Awdurdod S4C hyn yn annerbyniol gan ei fod yn rhoi anfantais i'r gynulleidfa Gymraeg, a phrif orchwyl S4C yw gwasanaethu'r gynulleidfa hon. Er hyn, mae technoleg yn datblygu yn gyflym ac fe ddylai fod yn bosibl cyn hir i ddarparu'r math ddewis trwy bwysu botwm ar declyn pell-reolaeth y teledu. Byddai Awdurdod S4C yn ystyried yr achos yng ngolau'r posibilrwydd hwn, a byddai'n dal sylw pob ystyriaeth berthnasol. Byddai'r rhain yn cynnwys y pwysau fyddai hyn yn rhoi ar siaradwyr Cymraeg mewn cartrefi cymysg eu cyfrwng (ac y mae llawer ohonynt) i ddewis yr obsiwn Saesneg.

Materion eraill

Mewn ymateb i faterion eraill, dywedodd cynrychiolwyr S4C y byddent yn: -

- parhau i wneud popeth a fedrant i ddarparu slotiau cyson a chyfleus i raglenni Channel 4. Dibynnai hyn yn sylweddol ar rybudd digonol gan Channel 4 ynglyn â rhaglenni i ddod.
- parhau i dynnu sylw'r cyhoedd at animeiddiadau S4C a gyd-gynhyrchwyd yn rhyngwladol
- taro'r cydbwysedd cywir rhwng hysbysebiadau ar sgrîn (i sicrhau fod gwylwyr yn ymwybodol o raglenni i ddod) a'r angen i wneud y defnydd llawnaf posibl o'r amser darlledu rhaglenni
- taro cydbwysedd boddhaol rhwng sylw o ddewis eang o chwaraeon Cymreig, gan gynnwys chwaraeon amatur, ag anghenion y gynulleidfa am raglenni o fathau eraill.

CYFARFOD BUSNES MISOL YR AWDURDOD

Cynhaliodd yr Awdurdod ei gyfarfod busnes misol y diwrnod canlynol yng Nghanolfan Ddinesig Merthyr Tudful. Y prif feysydd trafodaeth a phenderfynu oedd:-

Gwella gwasanaethau cyhoeddus trwy ecsbloetio gofod digidol sbâr S4C

Fe roddodd y Ddeddf Darlledu 1996 gap ar grant S4C gan y Llywodraeth ar y lefel ar y pryd, yn gaeth i gynnydd blynyddol yn gyson â Mynegai Prisiau Manwerthu. Ar yr un pryd, fe roddodd y Ddeddf y gallu i ychwanegu at ei nawdd Llywodraethol, er mwyn cynnal a gwella safon ei gwasanaethau cyhoeddus trwy ymgymryd â gweithgareddau masnachol ym maes darlledu. Fel rhan o'i strategaeth i ecsbloetio'r cyfle yma'n llawn, fe gynigodd S4C yn llwyddiannus am ran o'r gofod am deledu digidol daearol ar draws y DU. Roedd hyn ar ben y gofod a glustnodwyd yn ôl darpariaeth Deddf 1996 sydd yn galluogi S4C i ddarparu S4C Digidol. Mae S4C yn defnyddio rhywfaint o'r gofod sbâr yma i ddarlledu'n fyw o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn cydweithrediad a BBC Cymru, ar S4C 2. Yn ogystal, mae S4C wedi sicrhau gofod lloeren ar draws y DU i ddarlledu ei gwasanaethau digidol, gan gynnwys S4C Digidol a S4C 2. Golyga hyn fod gwylwyr dros Gymru yn medru derbyn holl wasanaethau S4C. Mae gofod sbâr dros nos ar S4C Digidol ac ar S4C 2 pan nad yw'r Cynulliad mewn sesiynau cyhoeddus.

Ystyriodd yr Awdurdod gynlluniau i ecsbloetio'r gofod sbâr hwn. Cytunodd y dylai'r is-gwmni masnachol yn llwyr meddiant S4C, S4C Masnachol: -

- barhau â'r cynlluniau i ecsbloetio'r gofod digidol daearol sbâr ar draws y DU trwy SDN Cyf. Cwmni yw hwn â sefydlwyd gan S4C i'r diben hwn mewn partneriaeth ag United News and Media a NTL. Mae cyfranddaliad o drydydd rhan gan bob partner. Bydd angen rhywfaint o incwm masnachol S4C ar y fenter fel buddsoddiad dros y blynyddoedd sydd i ddod, ond disgwylir y bydd yr incwm yn sylweddol fwy na'r defnydd posibl arall o'r adnoddau hyn. Ni fydd cymhorthdal o gronfeydd cyhoeddus S4C. Gwêl yr Awdurdod y buddsoddiad hwn yn hanfodol i alluogi S4C i barhau i wella ei gwasanaethau Cymraeg eu cyfrwng yn y blynyddoedd i ddod.
- ecsbloetio'r gofod sbâr ar S4C Digidol a S4C2 am y tair blynedd nesaf er mwyn cynhyrchu'r incwm mwyaf posibl ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Iaith gryf mewn rhaglenni

Ystyriodd yr Awdurdod a oedd yr iaith gryf a ddefnyddiwyd mewn rhannau o'r gyfres ddiweddaraf o Tair Chwaer, a gynhwysid ychydig ar ôl y trobwynt 9pm, yn torri'r canllawiau rhaglenni cyfreithiol, a hefyd a oedd angen unrhyw ganllawiau pellach ar y comisiynwyr a chyflenwyr rhaglenni. Ar ôl gwyllo'r rhaglen, roedd yr Awdurdod o'r farn, er bod yr iaith ym mhen eithaf y raddfa, roedd yn ddiffynadwy yn nhermau'r cydestun a dilysrwydd yr olygfa dan drafodaeth. Cytunodd felly na fu torri ar y canllawiau ac nad oedd angen canllawiau ychwanegol ar hyn o bryd.

Cynllun Corfforaethol 2000

Ystyriodd a chytunodd yr Awdurdod ar amlinelliad o gynllun corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2000. Bydd yn trafod y cynllun llawn yn ei gyfarfod nesaf. Disgwylia'r Awdurdod gyhoeddi'r cynllun ym mis Rhagfyr.

Cynllun a Gweithdrefn Datgelu

Mabwysiadodd yr Awdurdod bolisi a gweithdrefn gynhwysfawr mewn cydweddiad ag anghenion y Ddeddf Datgelu er y Budd Cyhoeddus 1998. Amlinella'r Ddeddf sut, trwy ymddwyn yn ddidwyll, y gall staff S4C sicrhau fod amheumon o gamymddwyn gan reolwyr neu gydweithwyr yn dod i'r golwg ac yn cael eu trin yn effeithiol heb niwed i'r unigolyn sydd yn tynnu sylw at yr achos. Y ffyrdd cyntaf yw trwy bobl uwch addas nad yw'n rhan o'r cyhuddiadau. Mewn achosion ble fo'r cyhuddiadau mewn perthynas â'r staff uchaf, neu lle na bo'r person sydd yn tynnu sylw at y cyhuddiadau yn fodlon a'r ffordd y deliwyd â'r achos gan yr uwch reolwyr, mae'r weithdrefn yn caniatáu i'r achos gael ei dynnu at sylw y Cadeirydd neu aelod o'r Awdurdod. Yn olaf, os nad yw'r person a gododd yr achos yn fodlon â'r ffordd y deliwyd â'r achos gan y Cadeirydd neu aelod o'r Awdurdod, medrant dynnu sylw'r awdurdod cyhoeddus addas, er enghraifft yr heddlu, yr adran Llywodraethol addas neu AS at yr achos.

Cofrestr Buddiannau

Adolygodd yr Awdurdod y trefniadau ar gyfer datganiadau ar fuddiannau a'r ymdriniaeth o sefyllfa pan fo buddiannau benben â'i gilydd yn ymwneud ag aelodau'r Awdurdod neu staff S4C. Ailddatganwyd y trefniadau aelodau sydd angen datgan buddiannau ariannol ac anariannol perthnasol i aelodau eraill ac i'r datganiadau hyn gael eu nodi mewn cofrestr fydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai aelodau barhau i gymryd camau addas mewn cytundeb â'u cyd-aelodau, i ddelio ag unrhyw achos o fuddiannau benben â'i gilydd yn unol â chôd ymddygiad a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod (bydd copi o'r cod ar gael ar safle we S4C yn y man).

Gofynnir i staff S4C ddatgan buddiannau ariannol ac anariannol perthnasol i'w rheolwyr lein a bydd cofrestr canolog yn cael ei gadw'n fewnol. Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw fuddiannau croes wrth ddelio â busnes. Yn achos y Tîm Rheoli, bydd datganiadau a gweithgareddau i ddatrys achosion o fuddiannau benben â'i gilydd go iawn yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod, a fydd yn bodloni'i hun bod y camau perthnasol yn cael eu cymryd.

Materion Eraill

Ystyriodd yr Awdurdod adroddiadau rheolaidd ar: -

- berfformiad rhaglenni S4C
- cydymffurfiaeth i ganllawiau rhaglenni
- gwynion gwylwyr ynglyn â rhaglenni unigol
- cyllid S4C

Cyfarfod Nesaf

Bydd Awdurdod S4C yn cynnal cyfarfod cyhoeddus agored yng Ngwesty'r Porth, Llandysul am 7pm ddydd Iau 25ain o Dachwedd. Bydd yn cynnal ei gyfarfod busnes preifat yno'r diwrnod canlynol.